

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Powys

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Powys i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Powys wedi cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a rhannol gyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Powys wedi cyflawni 5 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 4.

Mae maint daearyddol y sir, a darparu gwasanaeth i boblogaeth wasgaredig ar draws tirwedd sy'n wledig yn bennaf, yn esgor ar broblemau unigryw i wasanaeth llyfrgell Powys. Rhaid canmol y gefnogaeth dda i staff proffesiynol a'r pwyslais parhaus ar wasanaeth rheng flaen, sydd wedi golygu oriau agor estynedig, ac mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd effeithiol o bartneriaethau a gwirfoddolwyr i gynnal a datblygu ei arlwy i'w gymunedau. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd dirywiad yn amlwg ym mherfformiad Powys yn 2017-18, gyda ffigyrau defnydd yn gostwng, derbyniadau yn lleihau, a chwymp yn y nifer sy'n gwneud ceisiadau am eitemau penodol a chwymp yn y cyflenwi ar y ceisiadau hynny. Mae'n bosibl fod paratodau i symud i'r System Rheoli Llyfrgell (LMS) Cymru gyfan wedi dylanwadu ar dri o'r dangosyddion hyn, ac felly gellir rhagweld peth gwelliant yn ail flwyddyn y fframwaith. Ar yr un pryd, ceir arwyddion y gallai cyllidebau gael eu cwtdogi yn y blynyddoedd i ddod, gyda'r posibilrwydd o effeithio ymhellach ar fuddsoddiad yn y gwasanaeth a'i berfformiad.

- Mae'r holl fannau gwasanaeth yn cynnig yr ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac ar gyfer iechyd a lles. Cyflwynodd Powys ystod o astudiaethau achos yn dangos effaith fuddiol y gwasanaeth.
- Roedd nifer y mynychwyr mewn sesiynau hyfforddiant a drefnwyd ymlaen llaw wedi gostwng yn sylweddol, gyda'r cyfartaledd fesul pen y boblogaeth bellach yn un o'r isaf yng Nghymru.
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau hefyd wedi dirywio, ac mae'r angen i dargedu adnoddau i gefnogi cymunedau yn fwy cyffredinol yn golygu bod Powys yn darparu gweithgareddau / digwyddiadau i'r rhai sydd â gofynion arbennig mewn llai na hanner ei lyfrgelloedd.
- Bu gostyngiad cyffredinol yn y defnydd ar lyfrgelloedd, gyda nifer yr ymwelwyr, benthyciadau llyfrau a nifer y benthycwyr gweithredol i gyd yn is nag yn 2016-17. Fodd bynnag, mae defnydd da ar adnoddau electronig, gyda lawrlwythiadau ar gyfartaledd fesul pen y boblogaeth y trydydd uchaf yng Nghymru.
- Mae gwariant ar adnoddau yn gyfrannol ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac nid yw'r un o'r ddau darged derbyniadau wedi eu cyflawni yn 2017-18. Mae perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau hefyd wedi gostwng, gan yn rhannol adlewyrchu'r paratodau ar gyfer symud i system reoli llyfrgell (LMS) Cymru gyfan.
- Mae lefelau staff wedi gostwng yn 2017-18, ac ni chyflawnir y targed staff cyffredinol;

Powys yw un o'r ychydig awdurdodau i barhau i gyflawni'r gofynion ar gyfer lefelau staff cymwysedig.

- Mae cyfanswm yr oriau agor wedi cynyddu, gyda'r cyfartaledd fesul pen y boblogaeth bellach yr ail uchaf yng Nghymru, sy'n adlewyrchu cefnogaeth gref y gwasanaeth i'r ddarpariaeth ar y rheng flaen.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Powys yn cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn rhannol gyflawni hawl graidd 6, a hynny oherwydd y tâl a godir am fenthyciadau o lyfrgelloedd awdurdodau eraill yng Nghymru. Nodir bod hyn yn adlewyrchu'r costau sy'n gysylltiedig â chael gafael ar eitemau o'r fath, ac nad oes unrhyw gynllun rhanbarthol benthyca rhwng llyfrgelloedd sy'n cynnwys Powys. Mae'r gwasanaeth bellach yn aelod o system rheoli llyfrgell (LMS) Cymru gyfan, sy'n hwyluso rhannu catalogau ac yn rhoi pwyslais cryf ar hyrwyddo gwasanaethau. Mae cynllun marchnata blynyddol ar waith, ynghyd â defnydd effeithiol o'r cyfryngau cymdeithasol / gwefannau newyddion lleol.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Powys yn cyflawni 5 yn llawn, un yn rhannol ac yn methu â chyflawni 4 o'r dangosyddion.

| Dangosydd ansawdd | Cyflawni? | |
|---|-----------|------------------|
| DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol: | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✓ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✓ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✓ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✓ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✓ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✓ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✓ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw | ✓ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✓ | |
| DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | x | Heb ei gyflawni |
| DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth | ✓ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | x | |

| Dangosydd ansawdd | Cyflawni? |
|--|--------------------|
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x |
| DA 10 Adnoddau Cymraeg | Heb ei gyflawni |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | x |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen | x |
| DA 11 Mynediad ar-lein: | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd | ✓ |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✓ |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau | Heb ei gyflawni |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | x |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | x |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau: | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | ✓ |
| iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✓ |
| iv) Canran DPP | ✓ |
| DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth | ✓ Cyflawni'n llawn |

Cafwyd newid bychan ers blwyddyn olaf y pumed fframwaith, gan nad yw'r targed ar gyfer cyfran y gyllideb deunyddiau a roddir i adnoddau Cymraeg bellach yn cael ei gyflawni.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Dywedodd Powys y byddai ei arolygon defnyddwyr yn cael eu cynnal yn ystod hydref 2018 (oedolion) a hydref 2019 (plant). Nid oedd y gwasanaeth ychwaith yn gallu rhoi ffigyrau ar werthusiad defnyddwyr o'i arlwy hyfforddiant, a hynny oherwydd capasiti staff a nifer y digwyddiadau a gynhelir gan bartneriaid allanol.

| Dangosydd perfformiad | Safle | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|--|---------------------|------|----------|-------|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | <i>amherthnasol</i> | 73% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | <i>amherthnasol</i> | 38% | 90% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | <i>amherthnasol</i> | 75% | 98% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y

flwyddyn. Cyflwynodd Powys amrywiaeth o astudiaethau achos o'r fath er y gellid wedi rhoi tystiolaeth gryfach mewn rhai achosion o effaith y gweithgareddau hyn ar y cyfranogwyr:

- Yr Arlwy Dysgu – dangos manteision y gwasanaeth llyfrgell i fyfyrwyr ac ymchwilwyr, a nodi sut y mae defnydd arbennig o dda ar yr adnodd ar-lein Mynediad at Ymchwil.
- Yr Arlwy Digidol – dangos sut mae'r gwasanaeth yn annog sgiliau newydd a ffyrdd newydd o weithio, gyda sesiynau codio rheolaidd yn Llyfrgell Aberhonddu, a digwyddiad penodol 'Merched sy'n Codio' a gynlluniwyd i gynyddu nifer y merched sy'n cymryd rhan.
- Yr Arlwy Iechyd – darparu ac arddangos cyfleoedd lles, gan weithio mewn partneriaeth â grwpiau eraill (PAVO, Grŵp Cefnogi Dyslecsia Powys), a thrwy ddatblygu ei gasgliadau 'Llesiant' ei hun.
- Yr Arlwy Diwylliannol / Darllen – tynnu sylw at fanteision hyrwyddo Dechrau Da, fel rhan o gynllun peilot Siapiau Cyntaf Babanod.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Powys ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrif | Uchaf | 2016/17 |
|--|---------------------|-------|------|----------|-------|---------|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | | |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd: | <i>amherthnasol</i> | | 24% | 83% | 94% | 76% |
| c) iechyd a lles | <i>amherthnasol</i> | | 33% | 65% | 95% | 69% |
| d) lle diogel a chroesawgar | <i>amherthnasol</i> | | 90% | 98% | 100% | 99% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | <i>amherthnasol</i> | | 88% | 91% | 98% | 74% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | <i>amherthnasol</i> | | 93% | 99% | 100% | 90% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | <i>amherthnasol</i> | | 74% | 86% | 94% | |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | <i>amherthnasol</i> | | 93% | 97% | 99% | 95% |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | <i>amherthnasol</i> | | 8.5 | 9.1 | 9.2 | 8.8 |
| DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen | 11 | 21/22 | 10 | 32 | 238 | 34 |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen | 98 | 18/22 | 15 | 199 | 473 | 98 |
| DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth | 97 | 20/22 | 82 | 228 | 684 | 122 |
| DA 8 Defnyddio'r llyfrgell | | | | | | |

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrif | Uchaf | 2016/17 |
|---|---------|-------|--------|----------|---------|---------|
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 4,065 | 11/22 | 2,501 | 4,047 | 7,014 | 4,316 |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 1,346 | 4/22 | 243 | 866 | 2,211 | 1,410 |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 147 | 14/22 | 100 | 154 | 229 | 157 |
| DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen * | 78 | 9/22 | 4 | 68 | 663 | |
| DA 11 Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul pen [^] | 9 | 14/22 | 5 | 9 | 14 | 10 |
| c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 19% | 20/22 | 14% | 27% | 67% | 32% |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 113 | 3/21 | 3 | 31 | 196 | 78 |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 2,490 | 5/21 | 40 | 1,346 | 11,939 | 438 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £15,749 | 4/21 | £7,047 | £11,915 | £17,771 | £14,817 |
| b) % ar staff | 49% | 18/21 | 44% | 63% | 75% | 54% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 8% | 19/21 | 4% | 13% | 25% | 8% |
| % ar offer ac adeiladau | 5% | 8/21 | 0% | 4% | 20% | 8% |
| % ar gostau gweithredol eraill; | 37% | 1/21 | 0% | 18% | 37% | 29% |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £699 | 7/20 | £0 | £338 | £17,432 | £341 |
| DA 15 Cost net am bob ymweliad | £1.52 | 15/21 | £1.24 | £1.82 | £2.41 | £2.44 |
| DA 16 Oriau agor [#] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.61% | 18/21 | 0.00% | 0.02% | 1.28% | 0.00% |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 4.79% | 19/20 | 0.00% | 0.35% | 11.24% | 0.13% |

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

[^] am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

[#] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Powys wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr eto; nodir bod y rhain ar y gweill ar gyfer hydref 2018 a 2019. Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig cefnogaeth lawn ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da i iechyd a lles, a'r targedau yn hyn o beth yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi ffurfiol wedi gostwng yn sylweddol, gyda'r cyfartaledd fesul pen y boblogaeth nawr yn un o'r isaf yng Nghymru, er bod y niferoedd a gynorthwyir trwy hyfforddiant anffurfiol yn debyg iawn i 2016-17.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Powys yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, gyda 16 o lyfrgelloedd yn agor 10+ awr yr wythnos, gan wasanaethu poblogaeth wasgaredig dros ardal wledig fawr. Fodd bynnag, mae Powys yn un o dri yn unig o

awdurdodau llyfrgell nad ydynt yn darparu digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig yn ei holl lyfrgelloedd; a hyn yn adlewyrchu'r angen i dargedu'r cymorth mewn cymunedau yn fwy cyffredinol. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau hefyd wedi gostwng yn sylweddol, gyda ffigyrau mynychwyr ar gyfartaledd ymhlith yr isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Mae ymweliadau â safleoedd llyfrgell, rhith-ymweliadau, benthyciadau llyfrau, a nifer y benthycwyr gweithredol hefyd wedi gostwng, er bod lefelau benthyciadau oedolion (gan gynnwys benthyciadau Cymraeg) yn parhau'n gymharol uchel. Mewn cyferbyniad, mae aelodaeth llyfrgell wedi cynyddu, ac mae defnydd da ar yr adnoddau electronig, gyda lawrlwythiadau ar gyfartaledd y trydydd uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Er bod y gyllideb deunyddiau wedi cynyddu yn 2017-18, mae gwariant Powys, fel cyfran o gyfanswm ei gyllideb refeniw, sef 8%, yn dal i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac nid yw'r un o'r ddau darged derbyniadau wedi'u cyflawni o ganlyniad. Efallai fod effaith y trosglwyddo i system reoli llyfrgell (LMS) Cymru gyfan wedi bod yn ffactor gyfrannol yma, oherwydd nad oedd modd prynu stoc am gyfnod i ganiatáu mudo i'r system newydd. Mae'r gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg hefyd wedi gostwng islaw'r trothwy 4% ac nid yw'r targed hwn bellach yn cael ei gyrraedd. Fodd bynnag, mae'r gwariant ar adnoddau i blant wedi'i gadw i gryn raddau, gan adlewyrchu blaenoriaethau'r gwasanaeth yn y maes hwn. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi gostwng ychydig, ac mae lefelau'r defnydd arnynt yn parhau i ostwng, a hynny'n debyg i lawer o awdurdodau eraill, wrth i fwyfwy o bobl ddefnyddio'r cyfleusterau Wi-Fi. Cafwyd cwmpwng amlwg (o fwy na 40%) yn nifer y ceisiadau a wnaed am eitemau penodol yn ystod y flwyddyn, ac mae'r perfformiad wrth geisio cyflenwi'r ceisiadau hyn hefyd wedi gostwng i lefel lle nad yw DA12 wedi'i gyflawni. Priodolir hyn yn rhannol i'r trosglwyddo i'r LMS Cymru gyfan, a oedd wedi effeithio ar brynu teitlau yr oedd galw mawr amdanynt am gyfnod o ddau fis.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staff cyffredinol wedi gostwng ymhellach yn 2017-18, ac nid yw'r targed staffio wedi'i gyflawni, er bod Powys yn parhau i gyrraedd y targed a bennir ar gyfer staff cymwysedig, un o saith awdurdod yn unig i wneud hynny. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth yn bodloni'r gofynion yn ymwneud â hyfforddi / datblygu staff, hyd yn oed os ydyw ar lefel ychydig yn is. Mae nifer y gwirfoddolwyr, a chyfraniad gwirfoddolwyr i'r gwasanaeth, wedi cynyddu'n sylweddol; mae'r awdurdod yn nodi ei ddibyniaeth gynyddol ar wirfoddolwyr wrth i lefelau staffio fynd yn llai, a sut mae eu cyfraniad yn galluogi'r gwasanaeth i gynnig mwy i'w gymunedau.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw ar y gwasanaeth wedi cynyddu ers 2016-17 ac erbyn hyn dyma'r pedwerydd uchaf yng Nghymru, er bod mwyafrif y cynnydd yn ymwneud â chostau gweithredol heblaw am staffio a deunyddiau. Mae cyfanswm yr oriau agor hefyd wedi cynyddu, gyda'r cyfartaledd fesul pen y boblogaeth nawr yr ail uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu cyflwyno oriau agor heb staff ynddynt (gan ddefnyddio gwirfoddolwyr) mewn tair llyfrgell llai o faint, ac estyniad i'r oriau agor yn Llyfrgell Llandrindod.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r

gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Powys yn adrodd ar ei gyfraniad at strategaethau trawsbynciol Llywodraeth Cymru: Ffyniannus a Diogel, gan gyfrannu at yr agenda tlodi trwy ddarparu mynediad lleol i ystod o wasanaethau yn ddi-dâl; Iach ac Egnïol, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, a thrwy Gynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru; Uchelgais a Dysgu, gan ddarparu cyfoeth o gyfleoedd dysgu; ac Unedig a Chysylltiedig, gan ddarparu gwasanaethau i bawb trwy ei rwydwaith o lyfrgelloedd a'r gwasanaeth llyfrgell deithiol.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, soniodd Powys am yr amgylchedd ariannol heriol y mae'n gweithredu ynddo, gyda'r posibilrwydd y bydd angen toriadau pellach yn y gyllideb dros y pum mlynedd nesaf. Mewn ymateb, mae'r gwasanaeth yn gweithio'n galed i archwilio pob ffordd o gydweithio, sy'n cynnwys defnydd aml-asiantaeth o gyfleusterau'r llyfrgell, gan adeiladu ar lwyddiant y gwaith yn 2017/18 gyda Chysylltwyr Cymunedol, ac Undeb Credyd Cambrian. Mae ffyrddiau incwm newydd hefyd yn cael eu harchwilio, gyda chymorth prosiect Labordy Llyfrgell Ymddiriedolaeth Carnegie.

6 Casgliad

Mae maint daearyddol y sir, a darparu gwasanaeth i boblogaeth wasgaredig ar draws tirwedd sy'n wledig yn bennaf, yn esgor ar broblemau unigryw i wasanaeth llyfrgell Powys. Rhaid canmol y gefnogaeth dda i staff proffesiynol a'r pwyslais parhaus ar wasanaeth rheng flaen, sydd wedi golygu oriau agor estynedig, ac mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd effeithiol o bartneriaethau a gwirfoddolwyr i gynnal a datblygu ei arlwy i'w gymunedau. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd dirywiad yn amlwg ym mherfformiad Powys yn 2017-18, gyda ffigyrau defnydd yn gostwng, derbyniadau yn lleihau, a chwymp yn y nifer sy'n gwneud ceisiadau am eitemau penodol a chwymp yn y cyflenwi ar y ceisiadau hynny. Mae'n bosibl fod paratodau i symud i'r System Rheoli Llyfrgell (LMS) Cymru gyfan wedi dylanwadu ar dri o'r dangosyddion hyn, ac felly gellir rhagweld peth gwelliant yn ail flwyddyn y fframwaith. Ar yr un pryd, ceir arwyddion y gallai cyllidebau gael eu cwtdogi yn y blynyddoedd i ddod, gyda'r posibilrwydd o effeithio ymhellach ar fuddsoddiad yn y gwasanaeth a'i berfformiad.